

Clefyd Affricanaidd y Ceffylau Cwestiynau ac Atebion

Mae clefydau a gysylltid ar un adeg â hinsoddau tramor, bellach, o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, yn fwy tebygol o beri bygythiad i'r DU. Mae poblogaeth y DU o anifeiliaid o deulu'r ceffyl bellach yn agored i niwed gan feirysau na chredai neb byth y caent eu gweld ar ein glannau. O gael eu trosglwyddo gan bryfed, gallai clefydau megis Feirws Nîl y Gorllewin, Twymyn y Wern (Anemia Heintus Ceffylaidd) a Chlefyd Affricanaidd y Ceffylau, fod yn niweidiol ac yn gostus iawn i'r diwydiant marchogaeth. Gallai'r clefydau gael effaith ddifrifol ar farchnadoedd, digwyddiadau, chwaraeon a gweithgareddau eraill.

Y clefyd

1) Beth yw Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (AHS)?

Clefyd anifeiliaid o deulu'r ceffyl (ceffylau, asynnod, mulod, sebras a'u croesfridiau) a achosir gan feirws o'r un grŵp o feirysau ag sy'n achosi Clefyd y Tafod Glas. Mae'r Tafod Glas yn glefyd sy'n effeithio ar ddefaid a gwartheg yn bennaf. Gall Clefyd Affricanaidd y Ceffylau heintio defaid a geifr, ond yn anaml iawn y maen nhw'n datblygu'r clefyd. Mae Clefyd Affricanaidd y Ceffylau yn glefyd hysbysadwy.

2) Yn lle mae'n taro?

Mae'r clefyd yn endemig mewn rhannau o Affrica Is-Sahara. Mae'r clefyd hefyd wedi cael ei weld y tu allan i'r ardaloedd hyn yng Ngogledd Affrica a'r Dwyrain Canol. Mae wedi taro'n achlysurol yn Ne Ewrop (Sbaen, Portiwgal) er nad yw'n endemig (eang a pharhaol) yn y gwledydd hyn. Cafwyd yr achosion diwethaf o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau o fewn Ewrop yn Sbaen rhwng 1987 ac 1990. Yn Ne Affrica gwelir achosion o'r clefyd fel digwyddiadau tymhorol rheolaidd.

3) Pam fod pryder ynghylch y clefyd?

Caiff y clefyd feirysol hwn ei ledaenu gan rai mathau o'r un grŵp o bryfed (gwybed Culicoid) sy'n fectorau (cludyddion) Clefyd y Tafod Glas. Cafwyd achosion o'r Tafod Glas yng Ngogledd Ewrop am y tro cyntaf yn 2006, ac ers hynny, gwelwyd bod gwybed Gogledd Ewrop yn gallu lluosio a lledaenu'r feirws sy'n achosi'r clefyd. Y pryder yw y gallai sefyllfa debyg godi gyda Chlefyd Affricanaidd y Ceffylau.

4) Sut y mae'n effeithio ar geffylau?

Mae'r feirws yn achosi difrod i leininau pibelli gwaed, mae'r arwyddion clinigol yn wahanol gan ddibynnu ar ba fath o'r clefyd sy'n bresennol.

5) Beth yw prif nodweddion y clefyd?

- Ar y ffurf fwyaf aciwt;
 - cyfnod magu byr o ddim ond 3 i 5 diwrnod
 - mae gan geffylau sydd wedi eu heintio wres uchel
 - anadl iafurus iawn
 - peswch.
 - llif helaeth o'r trwyn

- Ar y ffurf gardiaidd (y galon);
 - cyfnod magu hwy o 7 i 14 diwrnod
 - chwyddiadau dros y pen a'r amrannau, gwefusau, bochau ac o dan y safn.
- Mae'r ffurf gymysg o'r clefyd yn gyfuniad o'r ddau fath uchod;
 - mae ganddo gyfnod magu o 5 i 7 diwrnod
 - mae'r clefyd yn dangos ei hun i ddechrau gan arwyddion anadliadol ysgafn a ddilysir gan y chwyddiadau sy'n nodweddiadol o'r ffurf gardiaidd.
- Ar y ffurf fwyaf ysgafn;
 - gwres uchel, gyda thymheredd isel yn y bore yn codi i wres uchel yn y prynhawn.

6) A yw Clefyd Affricanaidd y Ceffylau yn achosi unrhyw risg i iechyd dynol?

Nac ydyw. Nid yw'r afiechyd ond yn effeithio ar geffylau ac anifeiliaid eraill o deulu'r ceffyl e.e. asynnod, mulod, sebras a chroesfridiau o'r anifeiliaid hyn.

7) A effeithir ar anifeiliaid eraill?

Gall cŵn sydd wedi bwyta cig ceffyl heintiedig ddod yn gludyddion y clefyd. Mae'n debygol mai anifeiliaid gwyllt (yn enwedig sebras) yw ffynhonnell y feirws yn Affrica. Mae llysyesyddion eraill fel defaid a geifr yn gallu cael eu heintio ond yn anaml iawn y maen nhw'n mynd yn sâl.

8) Sut y caiff y clefyd ei drosglwyddo?

Yn gyffredinol ni ellir lledaenu'r clefyd yn uniongyrchol rhwng anifeiliaid. Mae angen pryf o'r grŵp Culicoides fel cludydd i luosi'r feirws a throsglwyddo'r feirws rhwng anifeiliaid a'i gilydd wrth fwydo ar eu gwaed. Canfuwyd bod pryfed eraill sy'n brathu megis mosgitos a throgod yn cludo'r feirws ond ni chredir eu bod mor arwyddocaol â gwybed Culicoid. Nid oes unrhyw dystiolaeth hyd yma, yn union fel gyda'r Tafod Glas, y gall y gwybedyn drosglwyddo feirws i'r genhedlaeth nesaf o wybed trwy'r wyau. Felly unwaith y mae gwybed heintiedig yn marw mewn ardal, yr unig ffordd y gall heintiadau newydd gael eu lledaenu yw pan fwydir ar geffyl heintiedig gan genhedlaeth newydd o wybed.

9) Sut y mae'r clefyd yn lledaenu?

Mewn ardaloedd o Affrica lle mae'r clefyd yn dymhorol: mae tywydd cynnes llaith yn caniatáu i'r gwybed oroesi. Mae gwybed benywaidd heintiedig yn lledaenu feirws i geffylau newydd wrth iddynt gymryd pryddau o waed oddi wrthynt. Wrth i'r poblogaethau o wybed gynyddu, mae'r clefyd yn symud ymlaen. Pan fo'r tywydd yn oeri'n sylweddol a gwybed yn marw, mae'r clefyd yn peidio â chynyddu. Gall gwybed heintiedig hefyd gael eu cludo bellteroedd sylweddol gan wyntoedd cryf, yn enwedig dros ddŵr. Mewn ardaloedd endemig mae'r clefyd yn bresennol trwy gydol y flwyddyn. Gall rhai anifeiliaid gwyllt fel y sebra gario'r feirws heb ddangos y clefyd am 1-2 mis.

10) A all pobl, bwyd anifeiliaid, sarn neu gerbydau lledaenu'r clefyd?

Na allant. Mae angen pryf i fod yn gludydd. Er y gall y feirws oroesi yn yr amgylchedd am gyfnod byr rhaid iddo drosglwyddo trwy'r gwybedyn. Gallai chwistrelli halogedig o bosibl lledaenu clefyd pe'u defnyddid ar geffylau a chanddynt feirws yn eu cyrff.

11) A yw'r math iawn o wybed Culicoid i'w canfod yn y DU?

Y prif wybedyn sy'n gyfrifol am drosglwyddo feirws yw'r gwybedyn trofannol *C. imicola* (fel gyda'r Tafod Glas). Yn ystod archwiliadau clefydau yn yr 1980au canfuwyd bod gwybed ym Mhenrhyn Iberia'n cludo'r feirws. Ers 2006 dengys tystiolaeth bod gwybed o Ogledd Ewrop yn gallu trosglwyddo feirws y Tafod Glas. Mae feirws y Tafod Glas yn perthyn yn agos i Glefyd Affricanaidd y Ceffylau. Ystyrir, fodd bynnag, fod y risg a berir i'r DU gan Glefyd Affricanaidd y Ceffylau yn hynod o isel.

12) A ellir cymysgu rhwng Clefyd Affricanaidd y Ceffylau a chlefydau eraill?

Mae tebygrwydd mewn symptomau gyda chlefydau eraill sy'n effeithio ar geffylau. Fel gyda phob ffurf o glefyd dylid ceisio cyngor milfeddyg.

13) Pa mor ddifrifol yw'r afiechyd?

Gall y ffurf ysgyfeiniol aciwt (sy'n effeithio'n bennaf ar yr ysgyfaint) fod â chyfradd marwolaeth o 90% mewn ceffylau, 50% mewn mulod a 10% mewn asynnod. Mae gan y ffurf gardiaidd yn gyffredinol gyfradd marwolaeth is ond gall gymryd amser maith i wella.

14) Allai'r clefyd ddigwydd yn y DU?

Gallai, mae'n bosibl. Mae'r achosion o'r Tafod Glas yng Ngogledd Ewrop yn dangos fod gwybed Ewropeaidd yn gwbl alluog i drosglwyddo'r feirws sy'n gyfrifol. Gallai newidiadau ym mioleg y gwybed achosi iddynt drosglwyddo Clefyd Affricanaidd y Ceffylau yn ogystal. Mae'r achosion o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau sydd wedi digwydd y tu allan i derfynau ei ardal endemig wedi bod yn gymharol fyrhoedlog ac nid ydynt wedi digwydd bellter sylweddol i'r gogledd. Mae profiad yn Affrica wedi dangos bod y clefyd yn dymhorol mewn ardaloedd tymherus (e.e. De Affrica).

15) Os amheuaf fod gennyf geffyl a allai fod yn dangos symptomau o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau beth ddylwn i ei wneud?

Mae Clefyd Affricanaidd y Ceffylau yn glefyd hysbysadwy, sef un y dylid ei hysbysu'n ddi-oed i'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol. I gael manylion cyswllt eich swyddfa leol o'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol, cliciwch ar y ddolen isod:

<http://new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/helpandadvice/rateams/ahoffices/?lang=cy>

16) Allai'r clefyd ddod yn endemig?

Y profiad hyd yma yw mai'r gwybedyn trofannol yw'r prif ddull o drosglwyddo'r feirws. Mae achosion y tu allan i'r ardaloedd endemig wedi diweddu ar ôl cyfnod o amser ac mae'r rhain wedi bod yn Ne Ewrop yn unig. Ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth fod gwybed Gogledd Ewrop yn fectorau cymwys i feirws Clefyd Affricanaidd y Ceffylau felly nid yw'n debygol y byddai'r clefyd yn ymsefydlu nac yn dod yn endemig. Hyd yn oed yn Ne Affrica, mae'r afiechyd yn cael ei ystyried yn broblem dymhorol.

Cyfyngiadau

17) Pe byddai achos, sut y byddai'n cael ei reoli?

Hyd yma, mae achosion o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau yn Ewrop wedi cael eu cyfyngu i Dde Sbaen a Phortiwgal. Nid oes unrhyw achosion newydd wedi bod ers 1990.

Gan y gall y clefyd gael ei ledaenu gan geffylau sy'n cludo'r feirws a chan wybed heintiedig, anelir y mesurau rheoli at greu rhwystrau symud i geffylau a allai o bosibl fod wedi cael eu heintio.

Mae Rheoliadau Clefyd Affricanaidd y Ceffylau (Cymru) 2013 yn darparu ar gyfer hysbysu gorfodol a sefydlu Parth Gwarchod sydd o leiaf 100 km o radiws o gwmpas safle heintiedig â Pharth Gwyliadwriaeth a fyddai o leiaf 50 km pellach. O fewn y Parth Gwarchod byddai cylch o 20 km o amgylch y safle heintiedig lle byddai pob symudiad o geffylau'n cael eu gwahardd, gallai stablau ac amddiffyn rhag ymosodiad gwybed fod yn ofynnol. Gellir gweld y Rheoliadau drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

<http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/1662/contents/made>

18) Sut allaf amddiffyn fy ngheffylau rhag gwybed?

Ychydig iawn y gellir ei wneud i reoli gwybed. Ni fyddai defnydd helaeth o bryfladdwr yn cael gwared â phob risg oddi wrth wybed a gall gael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Gallai fod defnydd gofalus o bryfladdwyr o gwmpas stablau ac o bosibl gellid defnyddio rhai a gymeradwywyd i'w defnyddio'n uniongyrchol ar anifeiliaid. Gellid lleihau'r risg o ymosodiad gwybed hefyd trwy lanhau'r stablau'n drylwyr a sicrhau bod pentyrrau tail cyn belled i ffwrdd oddi wrth anifeiliaid ag sy'n bosibl. Mae gwybed yn fywiog yn ystod y wawr a'r cyfnos yn bennaf. Gall cadw ceffylau tu mewn i adeiladau ac i ffwrdd o leoedd â risg yn ystod yr amserau hynny leihau'r risg o frathiadau gan wybed.

19)Pe byddai fy ngheffyl mewn stabl lle byddai achos o'r clefyd beth fyddai'n digwydd?

Byddai'r safle lle digwyddodd y clefyd (safle heintiedig) yn cael ei gyfyngu a gellid difa unrhyw geffylau a fyddai wedi'u heintio neu'r amheuid eu bod wedi'u heintio (yn dangos arwyddion clinigol). Byddai unrhyw geffylau ar y safle heintiedig a oedd yn iach, er hynny'n cael eu cyfyngu i'r safle.

20)Pam fod hyn yn wahanol i reoli'r Tafod Glas?

Mae'r clefyd yn debygol o fod yn llym iawn mewn ceffylau. Mae'n bwysig symud ymaith cyn gynted ag sy'n bosibl unrhyw ffynonellau posibl o'r feirws mewn anifeiliaid heintiedig i leihau'r cyfle i wybed lleol ddal y feirws ac o bosibl drosglwyddo'r feirws ymlaen i geffylau eraill.

21) A fyddai Asynnod, Mulod etc. yn wynebu'r un cyfyngiadau?

Byddent. Er gwaetha'r ffaith y gall y feirws effeithio ar asynnod a mulod yn llai llym, gallant fod yn ffynhonnell (yn ystod y cyfnod feiremig) feirws i anifeiliaid eraill pan fwydir arnynt gan wybed.

22)Ga'i barhau i gystadlu gyda'm ceffyl?

Byddai symudiadau'n cael eu cyfyngu, a byddai rasio ceffylau, sioeau a phob ffurf o chwaraeon ceffylau'n cael eu heffeithio. Byddai hyn yn amodol ar gamau rheoli ar gyfer ardaloedd penodol (y Parthau Gwarchod a Gwyliadwriaeth).

23)A fyddai iawndal am anifeiliaid yr effeithid arnynt?

Nid oes unrhyw iawndal yn daladwy am geffyl a oedd wedi'i heintio â chlefyd Affricanaidd y Ceffylau adeg ei ladd. Gallai iawndal gael ei dalu am unrhyw geffyl a gaiff ei ladd er mwyn rheoli'r clefyd ond y canfyddir yn ddiweddar (drwy brofion clinigol) nad oedd wedi'i heintio gan glefyd Affricanaidd y Ceffylau. Gall iawndal o hyd at £2,500 gael ei roi.

Triniaeth a brechu

24)Pa driniaeth sydd ar gael?

Nid oes unrhyw driniaeth ar gael ar hyn o bryd yn y DU, fel sy'n wir am lawer o heintiadau feiraol. Yn y ffurf ysgyfeiniol aciwt byddai cyfradd marwolaeth yn uchel iawn. Efallai y byddai angen i rai o'r anifeiliaid na fyddai'n marw, gael eu difa er hynny. Lle nad yw anifeiliaid yn marw, byddai triniaeth gefnogol a nyrsio dwys yn angenrheidiol.

25)Os yw ceffylau'n gwella a ydynt ag imiwnedd rhag ymosodiad pellach?

Mae 9 o wahanol rywogaethau (seroteipiau) o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau ac mae imiwnedd ar y cyfan yn gyfyngedig i wella oddi wrth neu frechu rhag y rhywogaeth honno. Byddai disgwyl i geffylau fod ag imiwnedd am gyfnod sylweddol (blynyddoedd) ar ôl gwella ond, pe byddent wedi gwanhau ac yn dioddef ymosodiad anferthol gan fectorau heintiedig, gallent o bosibl gael y clefyd eto.

Hyd yn oed pe baent ag imiwnedd i un rhywogaeth byddai ceffylau'n dal i fod yn agored i heintiad oddi wrth un o'r wyth rhywogaeth arall.

26) Pa amddiffyniad y gellir ei roi i geffylau?

Mae ceffylau mewn ardaloedd endemig ac ardaloedd yr effeithir arnynt yn dymhorol sydd y tu allan i'r UE yn cael eu brechu.

Gellir hefyd amddiffyn ceffylau rhag y gwybedyn i ryw raddau trwy eu cadw dan do ar yr adegau pa fo'n gwybed ar eu gwaethaf (ar ddechrau ac ar ddiwedd y dydd) ond nid yw hyn yn amddiffyniad llawn. Gallech hefyd ystyried rhoi carthen haf dros y ceffyl gyda gorchudd hefyd dros y gwddw a'r pen, ond unwaith eto nid yw hyn yn amddiffyniad llawn. Mae'r gwybedyn yn hynod o fychan felly byddai angen i amddiffyniad fod yn gynhwysfawr. Byddai angen i stablau gael eu diogelu at safon uchel iawn i atal gwybed rhag mynd i mewn iddynt.

27)A ellir brechu ceffylau yn erbyn y clefyd?

Nid oes unrhyw frechlyn ar gyfer unrhyw seroteip o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau sydd ar gael yn y DU neu rannau eraill o Ewrop ar hyn o bryd ond mae ymchwil ynghylch brechlynnau diogel ac effeithiol yn mynd rhagddo. Nid yw'r brechlynnau sydd ar gael yn Affrica yn addas i'w defnyddio yn y DU. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wrthi'n datblygu banc brechlynnau a fydd yn cadw 100,000 o ddosau o frechlyn yn erbyn saith gwahanol seroteip o Glefyd Affricanaidd y Ceffylau. Ni chaiff y brechlyn ond ei ddefnyddio mewn modd a reolir yn llym mewn argyfwng. Ceir rhagor o wybodaeth ym Mhenderfyniad y Comisiwn (2009/3/EC).

Ni chaniateir brechu ceffylau rhag Clefyd Affricanaidd y Ceffylau oni bai fod parth brechu wedi'i ddatgan gan Weinidogion Cymru neu fod Arolygydd Milfeddygol wedi rhoi trwydded neu hysbysiad yn caniatáu cam o'r fath neu'n ei wneud yn ofynnol. Gallai Gweinidogion Cymru ddatgan parth brechu, ac eithrio mewn parth gwyliadwriaeth. Ni chaiff brechlyn ei ganiatáu o fewn parth gwyliadwriaeth gan nad yw bob amser yn bosibl gwahaniaethu rhwng ceffylau sydd wedi'u brechu a cheffylau sydd wedi'u heintio. Mae'n rhaid i feddiannydd eiddo yn y parth brechu sicrhau bod yr holl geffylau ar yr eiddo wedi'u brechu. Unwaith y mae ceffyl wedi'i frechu ni ellir ei symud o'r eiddo lle y cafodd ei frechu am o leiaf 60 diwrnod ar ôl y dyddiad brechu.

28) A ellir brechu ebolion?

Mewn ardaloedd lle defnyddir y brechlyn, caiff ebolion eu brechu'n 6 mis oed ar ôl i imiwnedd oddi wrth eu mamau brechedig bylu.

29) Allai brechlyn y Tafod Glas roi unrhyw amddiffyniad i geffylau?

Na, mae'r imiwnedd a ddarperir gan y brechlyn yn unig ar gyfer y math penodol o feirws y Tafod Glas.